# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 26
MEDI 2009

Rwy'n siŵr ein bod ni gyd yn hoffi cael rhyw bethau bach "ecstra" mewn bywyd. Wrth siopa yn yr archfarchnad, neu yn siopau'r dref, byddwn bob amser yn dymuno cael gwerth ein harian drwy fanteisio ar unrhyw fargen. Gorau oll os yw rhywbeth yn hanner y pris, neu os gallwn brynu "dau am bris un", hyd yn oed os nad oes eu gwir angen arnom! Ond wyddoch chi bod Duw yn ei fawredd ac yn ei gariad wedi rhoi inni lawer iawn o bethau ychwanegol mewn bywyd– "pethau ecstra" - inni eu mwynhau, pethau mewn gwirionedd nad oes eu gwir angen arnom.

Cawn flas ar rai o'r pethau "ecstra" yma ar gychwyn y Beibl. Ym mhennod gyntaf Genesis darllenwn am hanes y creu a chawn bortread hyfryd gan yr awdur o'r modd y daeth y diwrnod cyntaf i fod, ynghyd â'r blynyddoedd a'r tymhorau. Yna â'r awdur yn ei flaen i ddweud wrthym mai Duw a wnaeth y ddau olau mawr: y golau mwyaf i reoli'r dydd a'r golau lleiaf i reoli'r y nos. Ac yna fel rhyw fath o ychwanegiad fe ddywed yr awdur mai Duw "a wnaeth y sêr hefyd." O gymharu â gwres a maint yr haul, yr oedd y sêr yn ymddangos yn hynod ddi-nod ac yn rhyw fath o ychwanegiad. Ond o feddwl am y greadigaeth yn ei chyfanrwydd y mae'r pethau ychwanegol hyn yn nodweddiadol iawn o haelioni Duw.

Ystyriwn yr holl amrywiaeth o fwyd a roddir inni. Nid yn unig yr ydym yn derbyn yr hyn sydd ei angen arnom ond y mae Duw hefyd wedi darparu cymaint mwy. Nid oes diwedd ar y dewis o ffrwythau a llysiau sydd ar gael inni heddiw, heb sôn am y gwahanol fathau o fwydydd eraill. A beth am fyd natur? Meddyliwn am flodau'r maes a'u sawr. Nid un math o flodyn o liw ac o sawr arbennig a roddodd Duw inni, ond fe greodd amrywiaeth o flodau i harddu ein gerddi gydol y flwyddyn. Nid dim ond un math o gân aderyn a glywn yn yr ardd ychwaith ond fe glywn nifer o wahanol adar yn pyncio ac yn cyfrannu i gyfoeth bywyd gwyllt. Mae gallu dyn hefyd yn helaeth ac y mae gan bawb ohonom ryw ddawn a roddwyd inni yn ychwanegol i gyfoethogi ein bywydau.

Ond o'r holl bethau a roddodd Duw inni, yn sicr y rhodd fwyaf oedd ei Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Fe ddaeth atom i fyw ac i farw trosom er mwyn inni gael maddeuant. Nid rhywbeth ychwanegol oedd Iesu, ond Gwaredwr angenrheidiol. Hefyd, yn ogystal â maddau inni, fe welodd Duw yn dda i anghofio am ein beiau. Meddai'r Arglwydd : *"Dileais dy gamweddau fel cwmwl, a'th bechodau fel niwl"* (Eseia 44: 22). Hyd yn oed ym marwolaeth ei unig-anedig Fab ar groesbren Calfari yr oedd Duw yn barod i faddau inni ein pechodau ac yn fwy na hynny i anghofio amdanynt hefyd. Canodd Elfed yn ei emyn, "Nefol Dad mae eto'n nosi":

*Caea di ein llygiad heno*
*Wedi maddau ac anghofio*
*Anwireddau'n hoes i gyd*

Ydym, yr ydym i gyd yn hoffi'r pethau bach "ecstra" mewn bywyd ac fe ddeallodd Duw hynny o'r cychwyn cyntaf. Diolchwn iddo ac yn arbennig am ei fod mor barod i faddau ac yn fwy na hynny, i anghofio am bob bai, mawr a mân.

Pob bendith
Judith
Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com.

## CALENDR MIS MEDI 2009

| **Cyhoeddwr y Mis :Mervyn Hughes** | **Organydd y mis: Ceris Gruffudd** | |
|---|---|---|
| 6 Medi 2.30 | Oedfa gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun Sandra |
| 13 Medi 10.30 | Oedfa deuluol: Gweinidog | |
| 20 Medi 2.30 | Oedfa bregethu: Sion Meredith | Yng ngofal paned: Sandra a Wendy |
| 27 Medi 10.30 | Clwb Sul bach ac oedfa bregethu: Gweinidog | |
| 4 Hydref 2.30 | Oedfa gymun: Gweinidog | Bwrdd y Cymun Richard a Gwenan |

**I'CH DYDDIADUR**

**7 Medi :** Cinio Cymorth Cristnogol : Eglwys Dewi Sant : 12.00-1.30yp
**9 a 23 Medi:** Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
**11 Medi :**Cwis y Tincer yn Neuadd y Penrhyn am 7.30
**12 Medi** : Bore Coffi Macmillan : Festri Seion, Stryd y Popty am 10.30yb
**16 Medi** : Cymdeithas y Penrhyn: Noson agoriadol Hafina Clwyd yn sgwrsio am : "Cyfri Pobol: cipolwg ar Gyfrifiad 1881 ac 1891".
**19 Medi** : Ffair Medi Bethel o 10.00yb i 4.00yp.
**23 Medi** : Cyfarfodydd Blynyddol Mudiad y Chwiorydd yn Rhuthun.(Byddaf yn mynychu cyfarfod y prynhawn os hoffai unrhyw un ddod.)
**26 Medi** : Amser Te yng Nghanolfan San Paul er budd Cymorth Cristnogol. 3.00 - 4.30yp.
**29 Medi**: Cwrdd gweddi misol yn festri Horeb 7.30
**30 Medi** : Cyfarfod Diaconiaid Bethel a Horeb ar y cyd yn Horeb am 7yh.
**7 Hydref** :Cwrdd diolchgarwch yng nghwmni Hawys Tomos a fydd yn sôn am ei thaith i Botswana, am 7.00yh.
**Rhaghysbyseb: 11 Gorffennaf 2010**: Byddwn yn ymweld â chapel Bethel Sulian i gynnal oedfa. Croeso cynnes i bawb.

**LLOFFION**

- **Dymuniadau gorau** a gwellhad buan i Tirion Lewis. Byddwn yn cofio amdani a'r teulu yn gyson ac yn dymuno gwellhad llwyr a buan iddi.

- **Dymunwn yn dda** hefyd i Mrs Mona Edwards sydd yn yr ysbyty ac i Mrs Irfon Williams sydd wedi bod yn yr ysbyty.

- **Diolch yn fawr** i Mrs Christine Lloyd am y rhodd o £1,000 er cof am ei rhieni, Gerwyn Williams a Paul ac Eiry Rasmussen. Rhoddir plac er cof amdanynt ar un o gadeiriau'r capel, a rhennir yr arian rhwng y Weinidogaeth, y BMS, Cartref Glyn Nest, Clwb Sul a'r fynwent.

- **Llongyfarchiadau** gwresocaf i :

**Elin Huxtable** ar ei llwyddiant yn yr arholiadau Lefel A.
**Manon Reynolds a Rhys Pugh Evans** ar lwyddo yn yr arholiadau AS
**Lowri Morgan** ar lwyddo yn yr arholiadau TGAU.
**Mared Pugh Evans** a oedd yn fuddugol ar yr Unawd Telyn o dan 16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac am ennill Ysgoloriaeth Ryngwladol i fynychu Gŵyl Delynau Gyntaf Gwlad Thai yn Bangkok yn yr Hydref.

**D.S.** Gadawyd cot liw golau a het ar ôl yn y capel fis Gorffennaf – os gwyddoch pwy biau nhw cysylltwch â'r Ysgrifennydd.